# Trwyddedu Morol Penderfyniad Cydsyniad Asesu Effeithiau Amgylcheddol

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

## 1. Rheoliadau Gweithiau Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007 (fel y'u diwygiwyd), Rheoliad 22 – Penderfyniad Cydsyniad Asesu Effeithiau Amgylcheddol

**1.1** **Teitl:** Prosiect Dyfnder Caergybi Minesto Deep Green Cam 1 (0.5 MW)

**1.2** **Cymeradwyaeth Reoleiddiol:** Rheoliadau Gweithiau Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007 (fel y'u diwygiwyd)

**1.3** **Gweithredwyr:** Minesto UK Limited

**1.4** **Rhif Cais y Drwydded Forol:** ORML1618

**1.5** **Lleoliad:** Dyfnder Caergybi, i'r gorllewin o Ynys Môn

## 2. Diben

**2.1** Mae'r ddogfen hon yn cynnwys penderfyniad cydsyniad Asesu Effeithiau Amgylcheddol o dan Reoliad 22 Rheoliadau Gweithiau Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007 (fel y'u diwygiwyd), mewn perthynas â chais am Drwydded Forol (cyfeirnod: MMML1618) a gyflwynwyd gan Minesto UK Limited (Minesto). Ategwyd y cais gan Ddatganiad Amgylcheddol. Mae'r Tîm Trwyddedu Morol yng Ngwasanaeth Trwyddedu Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ystyried y cais a'r wybodaeth a gyflwynwyd i'w ategu ac rydym bellach yn gallu gwneud penderfyniad cydsyniad Asesu Effeithiau Amgylcheddol ar gyfer Minesto.

**2.2** Yn unol â Rheoliad 22 y Rheoliadau Gweithiau Morol, mae Tîm Trwyddedu Morol Cyfoeth Naturiol Cymru, fel yr awdurdod priodol, wedi ystyried y cais, y datganiad amgylcheddol, a sylwadau gan gyrff ymgynghori ac aelodau o'r cyhoedd, ac wedi rhoi sylw i'r ddeddfwriaeth berthnasol. Yn dilyn casgliad a wnaed gan Asesiad Sgrinio dros Ffiniau, penderfynwyd na fyddai'n rhaid ymgynghori â gwladwriaethau eraill yr Ardal Economaidd Ewropeaidd.

## 3. Ymgeisio

3.1 Mae Minesto wedi datblygu dyfais ynni ffrydiau'r llanw a adwaenir fel uned Deep Green Utility (DGU), sy'n cyffelybu i farcud o dan ddŵr. Mae hon yn cynnwys asgell ac iddi dyrbin bach wedi'i glymu ar yr ochr isaf, ac sydd yn ei thro wedi'i chlymu ar sylfaen ar wely'r môr. Gellir clymu'r ddyfais i fad neu strwythur tebyg a'i gweithredu mewn modd 'wyneb i waered'. Mae'r uned DGU yn symud trwy'r golofn ddŵr mewn siâp ffigur wyth,

gan fanteisio ar y codiad hydrodynamig a grëir gan yr asgell wrth i'r ffrwd lifo heibio, gan ganiatáu ei defnyddio mewn ardaloedd lle mae cyflymder y cerrynt yn gymharol araf. Mae gan bob uned DGU y capasiti i gynhyrchu 0.5 MW

3.2 Mae’r cynnig hwn yn gwneud cais i osod, gweithredu ac adennill uned DGU 0.5 MW sengl yn Nyfnder Caergybi, i'r gorllewin o Ynys Môn. Mae hyn yn cynnwys y prif gydrannau canlynol:

- Uned DGU: deunyddiau cymysg, 12 metr ar ei hyd (rhychwant yr asgell) a 3.3 metr ar ei lled, yn pwyso rhwng 10 ac 16 tunnell;
- Tennyn: Cebl Dyneema ac iddo gas plastig, 105 metr ar ei hyd;
- Llinyn bogail tanforol: cebl dur plethedig, 200 metr ar wely'r môr + dyfnder y dŵr (uchafswm o 100 metr), trwch o 100mm;
- Sylfaen a ddelir yn ei lle â disgyrchiant: concrid, 12 metr ar ei lled a 25 metr ar ei hyd, tua 1,000 tunnell;
- Amddiffyniad rhag sgwrio: arfwisg creigiau, 15 metr², uchder o tua 1 metr o gwmpas y sylfaen;
- Pwysynnau angor clwmp ar gyfer bad, bad clymu neu bad hunangynhwysol: concrid neu ddur, 9 metr² i bob pwysyn clwmp, wyth angor, cyfanswm o 72 metr²;
- Drilio ar gyfer polion pin (os sylfaen dreipod ac iddi bolion pin yw'r opsiwn a ffafrir): symud gwaddodion o wely'r môr, diamedr o dri metr ac 20 metr ar ei hyd, cyfanswm o 424 metr².

## 4. Y Datganiad Amgylcheddol – Rheoliadau Gweithiau Morol 12 (1) (d)

**4.1** Gwnaeth y Datganiad Amgylcheddol ar gyfer Prosiect Deep Green Dyfnder Caergybi Cam 1 (0.5 MW) (Mehefin 2016) amlinellu effeithiau posibl y prosiect. Ystyrir bod y Datganiad Amgylcheddol yn bodloni gofynion Rheoliad 12 (1) (d) ac Atodlen 3 y Rheoliadau Gweithiau Morol.

## 5. Hysbysiadau Cyhoeddus – Rheoliadau Gweithiau Morol 16 (2) (g)

**5.1** Cyhoeddwyd hysbysiadau cyhoeddus i hysbysu partïon sydd â diddordeb yn y cais. Cyhoeddwyd y dogfennau cais fel a ganlyn:

- Rhoddwyd hysbysiad cyhoeddus a gyfieithwyd yn y Holyhead and Anglesey Mail, y Daily Post, y London Gazette a’r Caernarfon Herald ar 6 Gorffennaf 2016 a 13 Gorffennaf 2016.
- Roedd y dogfennau cais ar gael i'r cyhoedd yn: Swyddfeydd Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TW, a Swyddfeydd Cyngor Llyfrgell Caergybi, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TW, am 49 diwrnod yn dilyn cyhoeddi'r hysbysiad cyhoeddus cyntaf.

**5.2** Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau gan y cyhoedd.

## 6. Ymgynghoriad – Rheoliadau Gweithiau Morol 17 (1) (a) (iv)

**6.1** Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cais am Drwydded Forol ar 22 Mehefin 2016 am gyfnod o 42 diwrnod gydag amrywiaeth o ymgynghoreion.

**6.2** Gwnaethpwyd sylwadau gan y sefydliadau canlynol:

- Cyfoeth Naturiol Cymru, CEFAS, Ystad y Goron, Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, Trinity House, y Gymdeithas Hwylio Frenhinol, y Swyddog Bioamrywiaeth Lleol, yr RSPB, Cadw, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

**6.3** Tybiwyd nad oedd sylwadau i'w gwneud gan y sefydliadau nad oeddent wedi ymateb.

## 7. Safleoedd a Warchodir gan Ewrop

**7.1** Cynhaliwyd prawf o'r effaith sylweddol debygol a phenderfynwyd na ellid diystyried effeithiau sylweddol posibl ar nodweddion y Safleoedd Ewropeaidd a nodir uchod. Felly, cynhaliwyd Asesiad Priodol.

**7.2** Daeth yr Asesiad Priodol i'r casgliad, gan ystyried y cyngor a dderbyniwyd gan y cynghorwyr perthnasol o'r safleoedd a warchodir, na fyddai'r prosiect yn peri unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd unrhyw Safle a Warchodir gan Ewrop naill ai ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad â chynlluniau neu brosiectau eraill, ar yr amod bod y cyfyngiadau a'r mesurau lliniaru ar y drwydded forol yn cael eu dilyn.

**7.3** Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn cynnwys rhagor o ddisgrifiadau manylach.

## 8. Materion i'w hystyried mewn perthynas â'r Datganiad Amgylcheddol, y cais am Drwydded Forol, a'r sylwadau a dderbyniwyd

**8.1** Wrth wneud penderfyniad cydsyniad Asesu Effeithiau Amgylcheddol Rheoliad 22, gwnaethom ystyried y materion sydd wedi eu nodi ar ôl ystyried y Datganiad Amgylcheddol, sylwadau gan gyrff ymgynghori, ac unrhyw wybodaeth ategol ganlyniadol a roddwyd mewn ymateb gan yr ymgeisydd.

**8.2** Y prif broblemau a gododd yn dilyn yn ymgynghoriad ar y cais oedd:

- Adareg
- Mamolion morol
- Llywio

**8.3** Mae'r Tîm Trwyddedu Morol o'r farn i'r holl broblemau a nodwyd dderbyn sylw digonol trwy drafodaethau â'r ymgeisydd a, lle bo'n briodol, gosodwyd amodau ar y drwydded forol.

## 9. Gwerthusiad Rheoleiddio a phenderfyniad cydsyniad Asesu Effeithiau Amgylcheddol

Wrth ystyried y cais i osod, gweithredu ac adennill uned DGU 0.5 MW sengl gan Minesto UK Limited, mae'r canlynol wedi cael eu hystyried:

- Y Datganiad Amgylcheddol, gan gynnwys y mesurau lliniaru arfaethedig;
- Darpariaethau perthnasol Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009; ac

- Y sylwadau a dderbyniwyd.

Mae Tîm Trwyddedu Morol Cyfoeth Naturiol Cymru wedi penderfynu bod effeithiau amgylcheddol y gwaith o osod, gweithredu ac adennill yr uned DGU wedi cael eu nodi, eu disgrifio a'u hasesu'n ddigonol, ac y gellir sicrhau mesurau lliniaru a fyddai'n ddigonol i alluogi'r cais am drwydded forol adnewyddadwy gael ei gymeradwyo.

## 10. Cymeradwyo

**Cynhyrchwyd gan**: Katherine Route-Stephens – Swyddog Trwyddedu, Tîm Trwyddedu Morol
**Llofnodwyd:**

**Dyddiad**: 6 Ebrill 2017

Cymeradwywyd gan: Eleanor Smart – Uwch-arweinydd y Tîm Trwyddedu, Trwyddedu Morol
**Llofnodwyd:**

**Dyddiad**: 12 Ebrill 2017